# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.11.20 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril
**Yn dilyn canllawiau diogelwch diweddaraf Covid 19 fel y cynghorwyd gan Gyngor Gwynedd**

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Jenny Warne, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths**.**

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14.10.20 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.10.20):**
   **a)** **Historypoints.org -** Rhodri Clark wedi cysylltu i ofyn a oes modd symud y plac bach yn agos at y gofeb ond nid ar y cof golofn ei hun, gan fod y gofeb yn strwythur rhestredig a bod angen caniatâd arbennig i osod y plac yno.
   **Penderfyniad** ➞ gofyn i Historypoints ail argraffu'r plac, i'w ail osod yn Mis Ionawr 2021.

   **b)** **Cytundeb Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril 2020-21:**
   Cadarnhad wedi ei dderbyn (ar y ffôn) gan swyddog o Adran Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd nad oes newid eleni gyda'r ymrwymiad sydd yn ei le, a bod llythyr yn egluro'r rhesymau wedi ei anfon i'r Cyngor Cymuned.
   **Penderfyniad** ➞ talu'r pris llawn ar yr anfoneb = £2,000.00.

   **c)** **Network Rail -** ateb wedi ei dderbyn yn ymddiheuro am yr oedi i gychwyn y gwaith arfaethedig ar y rhwystrau diogelwch ar yr Allt, Friog , ond eu bod yn gobeithio cysylltu gyda mwy o wybodaeth yn fuan iawn!

5. **Gohebiaeth:**
   **a)** Llythyr wedi ei dderbyn gan yr elusennau Poppy Appeal, Ty Gobaith, Teenage Cancer Trust a Hosbis Dewi Sant yn diolch am y rhodd i'r pedwar elusen gan y Cyngor Cymuned.

   **b)** Llythyr wedi ei dderbyn gan Elusen Cerebral Palsy, Caerdydd yn gofyn am gyfraniad ariannol
   **Penderfyniad** ➞ cytunodd yr aelodau i beidio â chyfrannu y tro yma.

   **c)** **Ciosg Ffôn Cyhoeddus BT ger y Cae Chwarae yn Llwyngwril -** ymateb wedi ei dderbyn gan BT yn cadarnhau nad yw'r Ciosg i gael ei symud oddi yna, yn dilyn y sylwadau a gafodd eu cyflwyno i BT gan y Cyngor Cymuned.
   **Penderfyniad** ➞ gadael i Mike Senior wybod y sefyllfa ddiweddaraf, gan ei fod wedi awgrymu ail-leoli'r Defibrillator o'r Ganolfan i'r Ciosg Ffôn, os oedd BT am gael gwared a'r Ciosg.

   **d)** **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Cronfa Prosiectau Cymuned**
   Gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â'r grant yma gan y Parc. Aelodau yn awgrymu gwneud cais am grant i gael adnewyddu'r Cof Golofn yn Llwyngwril.
   **Penderfyniad** ➞ cael pris gan dri saer maen coffaol i'w cyflwyno gyda'r cais am y grant.
   **1.** I B Williams, Llanbrynmair. **2.** Madog Memorials, Porthmadog. **3.** Mid Wales Memorials, Tywyn.

6. **Materion Cynllunio:**
   - **Rhif Cais - NP5/69/90C -** Diddymu Cytundeb 106 ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP4/69/90 dyddiedig 15.04.1991
     5 Ffordd y Felin, Llwyngwril, LL37 2JA
     **Penderfyniad** ➞ Aelodau i gyd yn cytuno eu bod yn gwrthwynebu'r cais yma, gan for Cytundeb 106 wedi ei roi ar y cais am reswm yn ôl yn 1991, a dylid Cytundeb Adran 106 ddal i gael ei ddilyn rŵan.

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Hydref 2020 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Jenny Warne **Arwyddwyd –** Huw Davies.

   - Siec 100792 – Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril = £2,000.00
   - Siec 100791 – Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol = £192.00
   - Siec 100790 - Cyflog a chosta'r clerc = £1,422.70

   - **Banc HSBC** – wedi gofyn am gopi o lofnodion yr aelodau sydd ar y Mandate ➞ copi i'w anfon i Banc HSBC ✓

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   a) **Biniau Halen -** Kevin Goodchild wedi checio y biniau halen ac mae 4 ohonynt angen eu hail-lenwi sef Ffordd y Nant (top), Llangelynnin, Llabwst a Choed y Gweddill ➞ Cyngor Gwynedd i gael eu hysbysu.
   b) **Arwyddbost Llwybr Cyhoeddus** ar waelod llwybr cyhoeddus Llwyn Du, ger y ffordd fawr, wedi mynd ar goll
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt drefnu i roi arwyddbost newydd yno.
   c) **Er gwybodaeth** – twll o dan y ramp/llwybr i lan y môr ger Llwybr y Crynwyr wedi ei drwsio a'i lenwi hefo concrit.
   d) **Lloches Bws, Rhoslefain** - adroddiad wedi ei dderbyn fod planhigyn angen ei dorri ger y lloches bws
   ➞ Aelodau'r Cyngor wedi cynnig tori a thacluso'r planhigyn pan yn Rhoslefain yn rhoi'r Goeden Nadolig i fyny.
   e) Emlyn Roberts wedi cadarnhau fod ganddo goeden Nadolig i Lwyngwril eto eleni.
   f) John Griffiths wedi cadarnhau eisoes ei fod yn fodlon nôl Coeden Nadolig Rhoslefain o'r Gwanas yn Nolgellau.
   g) Coed Nadolig i gael ei rhoi i fyny yn Llwyngwril a Rhoslefain Dydd Sadwrn 05.12.20 os bydd y tywydd yn caniatáu.
   h) **Band Eang Ffibr yn Llwyngwril** - Rhoddodd Ian Williams y wybodaeth ddiweddaraf am gostau tebygol Openreach ar gyfer y prosiect o gael band eang ffibr i gartrefi yn Llwyngwril - amcangyfrif cychwynnol = £491,000.00 ar gyfer 391 o gyfeiriadau yn y pentref - (o'r Nant i Tydfarch). Angen pawb sydd â diddordeb i gael gwasanaeth band eang gwell yn eu cartref i roi eu henwau ymlaen a chofrestri i'r prosiect yma.
   Am fwy o fanylion, cysylltwch â Ian Williams.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 09.12.2020 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**